*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 98 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

---

# 2019 Rhif 000 (Cy. 000)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) 2019

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018") yn sefydlu'r system statudol yng Nghymru ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2018 yn parhau â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac yn ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i adran 91 o Ddeddf 2018 sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad y Tribiwnlys Addysg, gan gynnwys penodi Llywydd y Tribiwnlys ac aelodau eraill y Tribiwnlys Addysg.

Mae rheoliad 2(2) yn dileu o adran 91(3) o Ddeddf 2018 y gofyniad i gael cytundeb yr Arglwydd Brif Ustus i'r Arglwydd Ganghellor benodi Llywydd y Tribiwnlys Addysg.

Mae rheoliad 2(3) yn dileu o adran 91(4) o Ddeddf 2018 y gofyniad i gael cytundeb Llywydd y Tribiwnlys i'r Arglwydd Ganghellor benodi'r panel cadeirydd cyfreithiol.

Mae rheoliad 3 yn rhoi yn lle'r cofnod yn Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 sy'n ymwneud â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru gofnod sy'n ymwneud â'r Tribiwnlys Addysg.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yng ngoleuni'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 98 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  
C Y M R U  D R A F F T

# 2019 Rhif 000 (Cy. 000)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) 2019

*Gwnaed* ***

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 97(1) a (2) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 98 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Darpariaethau Atodol) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Ebrill 2019 yn ddarostyngedig i baragraff (3).

(3) Daw rheoliad 3 i rym ar y diwrnod y daw adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i rym.

(**1**) 2018 dccc 2.

**Diwygiadau i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**

**2.**—(1) Mae adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (3) hepgorer "gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus".

(3) Yn is-adran (4) hepgorer "gyda chytundeb y Llywydd".

**Diwygiadau i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005**

**3.**—(1) Yn Rhan 3 o Atodlen 14 i Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, mae Tabl 1 (penodiadau gan yr Arglwydd Ganghellor) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle'r cofnod sy'n ymwneud ag adran 332(2) o Ddeddf Addysg 1996 a'r swyddi y mae'r adran honno yn ymwneud â hwy, rhodder —

| | |
|---|---|
| "President of the Education Tribunal for Wales<br>Member of the legal chair panel of the Education Tribunal for Wales | Section 91(3) and (4) of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018" |

*Enw*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad